## PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

## DYDD GWENER, 14 CHWEFROR 2025

**YN BRESENNOL:** Yr Athro Ian Roffe (Aelod Annibynnol) (Cadeirydd)

**Aelodau o Gyngor Sir Caerfyrddin:**
K. Howell, M. Thomas a K. Davies

**Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion:**
K. Evans, E. Evans ac W. Thomas

**Aelodau o Gyngor Sir Penfro:**
J. Grimes, S. Hancock a S. Wright

**Aelodau o Gyngor Sir Powys:**
L. George a L. Rijenberg

**Aelod Annibynnol:**
Mrs H.M. Thomas

**Yn bresennol o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu:**
Mr D. Llywelyn – Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Mrs C. Morgans – Y Prif Weithredwr
Mrs N. Davies - Prif Swyddog Cyllid

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol
K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Prif Gyfieithydd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.32yb - 12.14 yp**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd William Powell.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

| Yr Aelod | Rhif yr Eitem ar yr Agenda | Buddiant |
|---|---|---|
| Mrs H. Thomas | Yr holl eitemau | Unrhyw drafodaeth am y Cyflog Byw – Mae aelod o'r teulu yn cymryd rhan yn y trafodaethau |
| Y Cynghorydd S. Hancock | Yr holl eitemau | Mae aelod o'r teulu yn gweithio fel Swyddog Heddlu yn Heddlu Dyfed-Powys |
| Y Cynghorydd S. | Yr holl eitemau | Mae aelod o'r teulu yn gweithio fel |

| | | |
|---|---|---|
| Wright | | Swyddog Heddlu yn Heddlu Dyfed-Powys |

## 3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 IONAWR 2025

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2025 gan eu bod yn gywir.**

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)

**Cofnod 5 - Praesept yr Heddlu 2025-26**

Rhoddodd y Comisiynydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel gan nodi, ar ôl y cyfarfod diwethaf, fod cyhoeddiad gan y Swyddfa Gartref mewn perthynas â rhywfaint o gyllid ychwanegol yn gysylltiedig â'r Adduned Cymdogaeth gan Lywodraeth bresennol y DU. Mae cyllid ychwanegol o £750,000 wedi'i roi i'r Adduned nad yw'n newid y gyllideb derfynol a nodwyd ar gyfer y llynedd, gan y bydd yn rhan o wariant cysylltiedig â'r Adduned.

## 5. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN AELODAU'R CYHOEDD I'R COMISIYNYDD

### 5.1. CWESTIWN GAN MRS HELEN THOMAS

5.1 - Cwestiwn gan y Cynghorydd Mrs Helen Thomas

Dros y blynyddoedd mae'r Panel wedi derbyn adroddiadau am bobl ifanc yn mynd ar goll, yn enwedig y rheiny o gartrefi gofal.

Gan fod sylw wedi'i roi'n genedlaethol yn ddiweddar i griwiau sy'n meithrin perthnasoedd amhriodol, a yw'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi cael trafodaeth gyda'r Prif Gwnstabl i sicrhau bod gan Heddlu Dyfed-Powys a'i bartneriaid systemau cadarn i ddiogelu'r bobl ifanc hyn sy'n agored i niwed?

**Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

Diolch am y cwestiwn amserol iawn, mae ffocws wedi bod ar hyn yn ddiweddar. Efallai fod llawer ohonoch wedi sylwi ar ymateb yr Ysgrifennydd Cartref i rywfaint o sylw gan y cyfryngau mewn perthynas â chynnal archwiliadau. Mae'r Farwnes Casey yn cydlynu archwiliad ar ddechrau'r gwanwyn ac rydym yn aros am gylch gorchwyl yr archwiliad. Mae gan y Farwnes Casey brofiad helaeth yn y materion hyn. Rwy'n gefnogol i archwiliad.

Codais y cwestiwn hwn gyda'r Prif Gwnstabl drwy strwythurau'r bwrdd plismona sydd gennym. Gofynnais gwestiwn penodol i'r llu am yr angen i ni beidio â bod yn hunanfodlon o fewn Dyfed-Powys. Rydym yn gweithio gydag asiantaethau

partner ar y gwaith ehangach o ddiogelu plant a phobl ifanc ar draws rhanbarth Dyfed-Powys ac mae gennym strwythurau cadarn ar waith.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi ymateb, ac rwy'n dyfynnu:

“Mae'r Llu'n cymryd lles plant o ddifrif ac mae ganddo brosesau diffiniedig ar waith i atal camdriniaeth a chefnogi plant agored i niwed. Nid yw plismona ar draws ardal ein llu yn hunanfodlon ac mae'n parhau i weithio gyda phartneriaid i nodi materion o'r fath a sicrhau bod diogelu plant yn flaenoriaeth i bawb.

Er na ellir rhoi unrhyw sicrwydd pendant mewn unrhyw faterion ym maes plismona, ni allaf fod yn 100% yn sicr nad oes rhywun sydd wedi dioddef y math hwn o drosedd yn ardal y llu neu mae wedi effeithio arno.

Gallaf gadarnhau ein bod yn effro i'r risg sy'n gysylltiedig â chriwiau sy'n meithrin perthnasoedd amhriodol. Rwy'n ymwybodol bod sicrwydd tebyg wedi'i rannu gyda Chomisiynydd Plant Cymru drwy Uned Gyswllt yr Heddlu.”

Rydym wedi rhoi sicrwydd i Gomisiynydd Plant Cymru fel y mynegwyd yma heddiw.

Mae gennym wasanaeth a ddarperir gan Llamau. Mae hwn yn wasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar gyfer plant sy'n mynd ar goll ac mae'n wasanaeth ôl-drafodaeth. Mae'r gwasanaeth ôl-drafodaeth hwn yn cael ei fwydo'n ôl i asesiad amlasiantaeth o ba mor agored i niwed y mae'r person ifanc. Rydym yn ceisio gweld sut y gellir gwreiddio Llamau ymhellach yn y gwaith ehangach o adnewyddu rhaglen ysgolion ar draws ardal y llu.

## 6. ADRODDIAD CYNNYDD AR YR ARCHWILIAD DWFN - STELCIAN AC AFLONYDDU

[NODER: Roedd Mrs H. Thomas a'r Cynghorwyr S. Hancock a S. Wright wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a gwnaethant aros yn y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod a gwnaethant bleidleisio.]

Cafodd y Panel adroddiad archwiliad dwfn, a oedd yn craffu ar sut roedd Heddlu Dyfed-Powys yn ymdrin ag achosion o stelcio ac aflonyddu. Mae hwn yn faes pwysig ar gyfer gweithgarwch craffu.

Nododd yr adroddiad fod Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi cynnal adolygiad craffu dwfn o stelcio ac aflonyddu yn 2023. O ganlyniad i'r adolygiad, gwnaed sawl argymhelliad ym meysydd Adnoddau, Hyfforddiant, Data, Cyflawnwyr, Ymyriadau, Monitro Cyflawnwyr a Dioddefwyr, ac adroddir ar gynnydd pob un o'r rhain i'r Panel bob chwe mis.

Rhoddodd y Panel ganmoliaeth i'r adroddiad a holl waith caled y swyddogion wrth baratoi'r wybodaeth.

Ymatebwyd fel a ganlyn i'r sylwadau a roddwyd:-

- Mewn ymateb i gwestiwn am y cyllid hirdymor ar gyfer swydd Cydlynydd Cyflawnwyr Cam-drin Domestig a Stelcio, dywedodd y Comisiynydd fod cadarnhad yn cael ei geisio mewn perthynas â threfniadau cyllido.

- Mewn ymateb i gwestiwn am y gyllideb ar gyfer y rhaglen hyfforddi Hyrwyddwyr, dywedodd y Comisiynydd y byddai gwybodaeth yn cael ei darparu'n uniongyrchol i aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.**

## 7. PENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU

[NODER: Roedd Mrs H. Thomas a'r Cynghorwyr S. Hancock a S. Wright wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a gwnaethant aros yn y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod a gwnaethant bleidleisio.]

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad ynghylch y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd rhwng 12 Hydref, 2024 a 31 Ionawr, 2025.

Nododd y Panel fod Adran 28(6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ei gwneud yn ofynnol iddo adolygu'r penderfyniadau a wnaed a'r camau a gymerwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau a hefyd cyflwyno adroddiadau ac argymhellion o'r fath i'r Comisiynydd mewn perthynas â'r penderfyniadau a'r camau hynny y mae'r Panel yn eu hystyried yn briodol.

Codwyd y cwestiynau neu bryderon canlynol gan y Panel:

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch llwyddiant prosiect Celf Aeron yn Aberaeron a'r posibilrwydd o roi prosiectau tebyg ar waith ar draws ardal y llu, cytunodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i ddarparu adroddiad diwedd blwyddyn i rannu dadansoddiad o'r canlyniadau a rhesymeg.

- Gofynnwyd cwestiwn am y buddsoddiad o £960,000 yn y Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr. Dywedodd y Comisiynydd y byddai'r cynllun amlasiantaeth yn mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol yn gynharach yn ystod taith troseddu unigolyn ac y byddai'n lleihau aildroseddu.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn**

## 8. CYNLLUN BUSNES SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU - ADRODDIAD CYNNYDD

[NODER: Roedd Mrs H. Thomas a'r Cynghorwyr S. Hancock a S. Wright wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a gwnaethant aros yn y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod a gwnaethant bleidleisio.]

Cafodd y Panel yr adroddiad cynnydd ar Gynllun Busnes Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Chwarter 3 - 2024/25. Amlinellodd yr adroddiad y cynnydd a wnaed o ran cyflawni gofynion y cynllun busnes mewn aliniad â'r blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddu.

Nodwyd bod yr adroddiad yn tynnu sylw at nifer o newidiadau i statws RAG yn ystod Chwarter 3.

Cyfeiriodd Prif Weithredwr y Comisiynydd at adroddiad cynnydd Cynllun Busnes OPCC ac adroddiad Perfformiad y Protocol Plismona a dywedodd wrth y Panel, oherwydd nifer o themâu trawsbynciol rhwng y ddau adroddiad, y cynigiwyd eu bod yn ffurfio un Adroddiad Gweithredol o fis Ebrill 2025 ymlaen.

Rhoddwyd sylw i'r materion/cwestiynau canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Mewn ymateb i gwestiwn am ddyfodol y Gwasanaethau Atal a Thrin, dywedodd y Comisiynydd fod trafodaethau'n parhau gyda'r darparwr presennol ac y byddai'r gwaith yn parhau dros nifer o fisoedd i geisio datrys y mater.

- Rhoddwyd gwybod i'r Panel yr ymgysylltir â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gryfhau perthnasoedd mewn cymunedau. Roedd y rhyngweithio hwn yn angenrheidiol i gynyddu amrywiaeth o ran y gweithlu a grwpiau gwirfoddol ac i ddeall eu teimladau, eu safbwyntiau a'u profiadau, ac i ddarparu gwybodaeth hefyd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad**

## 9. PROTOCOL PLISMONA - ADRODDIAD PERFFORMIAD

[NODER: Roedd Mrs H. Thomas a'r Cynghorwyr S. Hancock a S. Wright wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a gwnaethant aros yn y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod a gwnaethant bleidleisio.]

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad perfformiad mewn perthynas â'r Protocol Plismona ar gyfer Ch3 blwyddyn ariannol 2024-25.

Dywedwyd y bu newid mewn perfformiad yn ystod y Chwarter hwn mewn nifer o gamau gweithredu; roedd 1 cam gweithredu wedi newid o Wyrdd i Oren ac roedd 8 wedi symud o Oren i Wyrdd.

Codwyd y cwestiynau neu bryderon canlynol gan y Panel:

- Holwyd am y data oedd ar gael ynghylch y gweithgareddau cynaliadwyedd amgylcheddol. Mewn ymateb, dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wrth yr aelodau fod gan y llu aelod o staff a oedd yn delio â materion cynaliadwyedd a datgarboneiddio ac y byddai'n darparu adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- Mewn ymateb i gwestiwn am yr Adolygiad o Ddatblygiad Personol ar gyfer y Prif Gwnstabl, dywedodd y Comisiynydd fod gan y Prif Weithredwr Staff

gymhwyster gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) a bod gan y swyddfa adnoddau digonol i ymgymryd â dyletswyddau o'r fath.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

____________________________ _____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**